# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 24 Medi 2013** |
| Amser: | **09:00 – 10:31** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_24_09_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Sandy Mewies** |
| Tystion: | **Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Mark Jeffs, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Geraint Norman, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Fay Buckle (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2 Sesiwn friffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Cyllid Iechyd 2012-13 a Thu Hwnt'

2.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio gan Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Cyllid Iechyd 2012-13 a thu hwnt'. Gyda'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer yr eitem hon roedd Mark Jeffs a Geraint Norman. Yn y sesiwn friffio cafodd aelodau'r Pwyllgor gyfle i holi cwestiynau.

Camau gweithredu:

Cytunodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddarparu:

- Mwy o wybodaeth yn tynnu sylw at yr arferion da mewn Byrddau Iechyd o ran amcanestyniadau ariannol.

Gofynnwyd i'r Clercod:

- Drafod gyda Llywodraeth Cymru a gafodd unrhyw fformiwlâu eu defnyddio i benderfynu faint o gyllid ychwanegol a gafodd pob Bwrdd Iechyd Lleol ym mis Rhagfyr 2012.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2013.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 5 Trafod y dull o ymdrin ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Cyllid Iechyd 2012-13 a Thu Hwnt'

5.1 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr i 'Cyllid Iechyd 2012-13 a thu hwnt'. Yn benodol, cytunwyd i ganolbwyntio ar y canlynol:

- Ansawdd y cynlluniau tair blynedd a'r perygl o orlwytho yn y flwyddyn gyntaf
- Yr anawsterau o ran sicrhau arbedion
- Dirywiad o ran perfformiad mewn rhai meysydd gwasanaeth
- Diwygio gwasanaethau a'r cysylltiad â lleihau costau
- Y cynnydd mewn hawliadau esgeuluster
- Y modd y caiff blaenoriaethau Haen 1 eu penderfynu

## 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2014-2015: Trafod y materion a godwyd

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y llythyr drafft.